



Sut mae Mencap yn cefnogi pobl mewn ffordd sy'n 'canolbwyntio ar yr unigolyn'?

Mae Mencap yn darparu cefnogaeth bersonoledig i bobl ag anabledd dysgu; mae hyn yn meddwl ein bod yn gweithio i sicrhau bod y person rydyn ni'n ei gefnogi yn ganolbwynt i'r hyn rydyn ni'n ei wneud.

Y Pethau Mwyaf Pwysig (What Matters Most)

Y Pethau Mwyaf Pwysig yw'r ffordd y mae Mencap yn gweithio i ddarparu cefnogaeth bersonoledig o safon uchel. Mae'n ein helpu i sicrhau bod pobl yn cael profiadau gwerth chweil a bywyd o ansawdd da. Trwy Y Pethau Mwyaf Pwysig rydyn ni'n casglu gwybodaeth am ein gwaith, yr effaith mae'n ei gael a sut y gallwn ni ddysgu wrth iddo symud ymlaen.

Fel rhan o'r Pethau Mwyaf Pwysig, rydyn ni'n defnyddio:

Meddwl o amgylch yr unigolyn

Meddwl o amgylch yr unigolyn sydd wrth wraidd Y Pethau Mwyaf Pwysig. Mae pob unigolyn yn wahanol, felly rydyn ni'n cychwyn trwy ddysgu cymaint ag y gallwn ni amdanyn nhw, gan gynnwys eu dymuniadau, eu dyheadau, eu hanghenion, eu profiadau, eu cefndir, eu teuluoedd a'u ffrindiau. Rydyn ni'n defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio eu cefnogaeth o ddydd i ddydd.

Proffiliau un-dudalen

Crynodeb byr o wybodaeth ynglŷn â pherson yw proffiliau un-dudalen. Maen nhw'n rhoi gwybodaeth am hoff bethau a chas bethau pobl, y pethau sydd orau ganddyn nhw a'u hanghenion.

Un teclyn rydyn ni'n ddefnyddio i ddatblygu proffiliau un-dudalen yw 'important to and important for'; mae hyn yn ein helpu i ddeall pethau, boed fach neu fawr, sy'n 'bwysig i' neu'n 'bwysig ar gyfer' y person, i wneud yn siŵr ein bod ni'n dal y pethau sydd fwyaf pwysig. Mae defnyddio'r teclyn hwn yn ein helpu i feddwl am y pethau sydd ar y bobl rydyn ni'n eu cefnogi eu hangen, a'u heisiau, er mwyn sicrhau eu bod yn cael bywydau gwerth chweil.

Rydyn ni'n cynnwys y bobl rydyn ni'n eu cefnogi a'u teulu a'u ffrindiau i ddatblygu eu proffiliau un-dudalen cyn gynted ag y bo modd. Efallai bod gan rai o'n cydweithwyr hefyd eu proffiliau un-dudalen i ddweud mwy wrth eu cydweithwyr, y bobl maen nhw'n eu cefnogi a'u teuluoedd amdanyn nhw eu hunain. Gallwch ofyn i'r rheolwyr sy'n goruchwyllo'r gwasanaeth am ragor o wybodaeth neu ofyn i weld eu proffiliau

About me- A one page profile

My name

The people who are important to me

Please add a photo here

What is important to me

What I am great at

What I may find difficult

What I want support with

What I need support with

When this was completed

Example of a one page profile

Adolygu'r Pethau Mwyaf Pwysig

Mae adolygiadau canolbwyntio ar yr unigolyn blynyddol a digwyddiadau ystyried Y Pethau Mwyaf Pwysig yn ein helpu i adolygu'r gefnogaeth rydyn ni'n ei darparu a gwneud unrhyw newidiadau sydd eu hangen. Mae'r rhain yn digwydd yn ein gwasanaethau ac yn cynnwys y bobl rydyn ni'n eu cefnogi, eu teuluoedd, eu ffrindiau a'u cefnogwyr.

Mae teuluoedd yn rhan allweddol o'r Pethau Mwyaf Pwysig, felly rydyn wir yn annog ymrwymiad gennych; i'n helpu gallwch:

- Gymryd rhan yn y broses o gynllunio o amgylch yr unigolyn ar gyfer yr aelod o'ch teulu

neu'ch ffrind a rhannu eich dirnadaeth werthfawr gyda ni.

- Cymryd rhan yn natblygiad y proffil un-dudalen ar gyfer yr aelod o'ch teulu neu'ch ffrind.
- Ystyried ysgrifennu eich proffil un-dudalen i ddweud mwy wrthyn ni amdanoch chi
- Rhannu eich meddyliau a'ch adborth â chydweithwyr yn y gwasanaeth trwy gydol y flwyddyn.
- Cymryd rhan yn nigwyddiadau ystyried y gwasanaeth yng ngwasanaeth yr aelod o'ch teulu a rhannu eich meddyliau, eich syniadau a'ch adborth.
- Dweud wrthyn ni os oes gennych chi unrhyw bryderon neu adborth ynghylch gofal neu gefnogaeth yr aelod o'ch teulu er mwyn i ni ddysgu o hyn hefyd. Gweler y 'sut galla i ddweud wrth Mencap beth rydw i'n feddwl am y gefnogaeth y mae'r aelod o'r teulu neu'r ffrindiau yn ei gael' am ragor o wybodaeth.

I gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r Pethau Mwyaf Pwysig gallwch ofyn i'r rheolwyr sy'n goruchwyllo'r gwasanaeth.

Astudiaeth achos – y ffordd rydyn ni'n personoli cefnogaeth

Mae Joanne yn dioddef gan barlys yr ymennydd ac mae arni angen ffisiotherapi yn ddyddiol, yn ogystal â ffrâm sefyll, ymarfer a sblint coes a sblint llaw. Mae hi'n cael cymorth i wneud popeth mewn bywyd trwy ddefnyddio un ai offer arbenigol neu gael cefnogaeth bersonol gan ei tîm cefnogi. Ni all Joanne siarad ond mae hi'n defnyddio arwyddion cyfathrebu dieiriau adnabyddadwy i ddweud wrthyn ni beth yw ei hanghenion ac i wneud dewisiadau personol.

Mae cynllun cefnogaeth bersonol Joanne wedi'i ysgrifennu i gynnwys ei hanghenion, ei dymuniadau a'i dyheadau. Mae'n cynnwys cynlluniau personol ac asesiadau o beryglon i roi gwybod i'r tîm cefnogi sut i wneud yr ymarferion a sut i ddefnyddio ei hoffer yn iawn.

Mae gan y tîm 'Ipad' sydd ag ymarferion ffisiotherapi arno i'r tîm eu dilyn ac mae Joanne yn dewis ei hoff gerddoriaeth i wrando arni wrth wneud yr ymarferion. Mae gofyn dygnwch ar gyfer y drefn hon, a all fod yn llafurus ac anghyfforddus ar brydiau. Felly mae angen ymdrech ychwanegol gan bawb sy'n gysylltiedig â hi er mwyn cynnwys dewisiadau, teimladau, hwyl a chyflwr iechyd Joanne yn y cynllun.